


Pecyn partneriaid

Partner pack

Cymraeg

Cyflwyniad

Sut allwch chi gymryd rhan yn ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg?

Bydd yr ymgyrch yn cael ei chynnal rhwng 16 Tachwedd a 7 Rhagfyr.

Nod ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg yw annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn nhw, a rhoi'r hyder iddyn nhw wneud hynny yn eu bywydau bob dydd.

Bob blwyddyn, mae sefydliadau, busnesau a mudiadau ledled Cymru yn cefnogi'r ymgyrch drwy ddangos sut y gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg gyda nhw. Eleni, rydym yn eich gwahodd i rannu lluniau, fideos a gwybodaeth ddefnyddiol am eich gwasanaethau Cymraeg, gan sicrhau bod eich cwsmeriaid a'ch defnyddwyr yn gwybod bod croeso iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r ymgyrch yn anelu at gynyddu hyder a'r defnydd o wasanaethau Cymraeg, gan gyfrannu at y weledigaeth o Gymru lle gall pobl fyw eu bywydau yn Gymraeg.

Introduction

How can you take part in the 'Defnyddia dy Gymraeg' (Use your Welsh) campaign?

The campaign will take place between 16 November and 7 December.

The 'Defnyddia dy Gymraeg' campaign encourages people to use the Welsh they have and gives them the confidence to do so in their everyday lives.

Each year, organisations, businesses and community groups across Wales support the campaign by showing people how they can use Welsh with them. This year, we are inviting you to share photos, videos and useful information about your Welsh language services, ensuring that customers and service users know that they are welcome to use Welsh.

The campaign aims to increase confidence and the use of Welsh language services, contributing to the vision of a Wales where people can live their lives through the medium of Welsh.

Defnyddia dy Gymraeg

Cymraeg

Beth yw Iaith Gwaith?

Gwnewch y Gymraeg yn weladwy gydag Iaith Gwaith

Mae cynllun Iaith Gwaith a'r bathodyn oren cyfarwydd yn ffordd syml ac effeithiol i staff ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg ac yn croesawu pobl i ddefnyddio'r iaith gyda nhw.

Drwy wisgo'r bathodyn a defnyddio deunyddiau Iaith Gwaith yn eich gweithle ac ar-lein, gallwch wneud eich gwasanaethau Cymraeg yn fwy amlwg a rhoi hyder i bobl ddechrau sgwrs yn Gymraeg.

Gall sefydliadau archebu bathodynnau a deunyddiau am ddim. Mae adnoddau digidol hefyd ar gael, gan gynnwys logos, llofnodion e-bost a chefndiroedd ar gyfer cyfarfodydd rhithiol.

Ydych chi'n defnyddio'r bathodyn? Rhowch her i'ch hun a'ch cydweithwyr i ddangos y bathodyn ar waith yn eich gweithle.

What is Iaith Gwaith?

Make Welsh visible with Iaith Gwaith

The Iaith Gwaith scheme and its familiar orange badge offer a simple and effective way for staff to show that they can speak Welsh and welcome people to use the language with them.

By wearing the badge and using Iaith Gwaith materials in your workplace and online, you can make your Welsh language services more visible and give people the confidence to start a conversation in Welsh.

Organisations can order badges and related materials free of charge. Digital resources are also available, including logos, e-mail signatures and backgrounds for virtual meetings.

Do you wear the badge? Challenge yourself and your colleagues to wear it proudly at work and help make Welsh more visible in your workplace.

skwmae

Defnyddia dy Gymraeg

Cymraeg

Cefnogi

Sut allwch chi gefnogi ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg?

Dangoswch sut y gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg gyda chi. Rhannwch wybodaeth glir am eich gwasanaethau Cymraeg ar eich gwefan, eich sianeli cyfryngau cymdeithasol ac yn eich gweithle.

Crëwch fideo byr. Mewn fideo o tua munud, dangoswch sut a ble y gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg gyda'ch sefydliad, busnes neu fudiad.

Rhannwch stori neu brofiad. Gofynnwch i aelod o staff neu ddefnyddiwr gwasanaeth rannu pam mae gallu defnyddio'r Gymraeg yn bwysig iddyn nhw.

Trefnwch weithgaredd. Cynhaliwch sesiwn, ddigwyddiad neu weithgaredd sy'n rhoi cyfle i staff, cwsmeriaid neu'r gymuned ddefnyddio'r Gymraeg.

Gwnewch y Gymraeg yn weladwy. Ydych chi'n defnyddio laith Gwaith yn eich gweithle? Beth am rannu lluniau neu fideos gyda ni sy'n dangos y bathodyn ar waith. Defnyddiwch fathodynnau, posteri, arwyddion a deunyddiau digidol i ddangos bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Rhannwch eich cynnwys gan ddefnyddio #DefnyddiaDyGymraeg, a thagiwch Comisiynydd y Gymraeg fel y gallwn rannu eich cyfraniadau.

Support

How can you support the 'Defnyddia dy Gymraeg' campaign?

Show people how they can use Welsh with you. Share clear information about your Welsh language services on your website, social media channels and in your workplace.

Create a short video. In a video of around one minute, show how and where people can use Welsh with your organisation, business or community group.

Share a story or experience. Invite a member of staff or a service user to explain why being able to use Welsh is important to them.

Organise an activity. Hold a session, event or activity that gives staff, customers or the community an opportunity to use Welsh.

Make Welsh visible. Put laith Gwaith into action in your workplace! Share photos or videos with us showing the badge in use, and use badges, posters, signs and digital resources to make it clear that Welsh is welcome.

Share your content using #DefnyddiaDyGymraeg, and tag the Welsh Language Commissioner so that we can share your contributions.

Defnyddia dy Gymraeg

Cymraeg

Dathlu

Os hoffech chi drafod syniad neu gyfraniad at yr ymgyrch, cysylltwch â ni ymlaen llaw drwy cyfathrebu@cyg-wlc.cymru neu gallwch lenwi'r ffurflen ar ein gwefan: Ffurflen 'Defnyddia dy Gymraeg'

Sut allwch chi hyrwyddo Iaith Gwaith?

Anogwch staff i wisgo'r bathodyn: Gwnewch yn siŵr bod bathodynnau ar gael i bob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg.

Arddangoswch Iaith Gwaith yn glir: Defnyddiwch bosteri, arwyddion, cortynnau gwddf neu ddeunyddiau digidol mewn mannau lle mae'r cyhoedd yn cysylltu â chi.

Defnyddiwch yr adnoddau digidol: Ychwanegwch logo Iaith Gwaith at lofnodion e-bost, proffiliau staff a chefndiroedd cyfarfodydd rhithiol.

Rhannwch lun tîm: Tynnwch lun o staff yn gwisgo eu bathodynnau a rhannwch neges yn esbonio sut y gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg gyda chi.

Rhannwch brofiadau: Crëwch ddyfyniad, blog neu fideo byr gan aelod o staff neu gwsmer yn trafod y gwahaniaeth y gall croeso clir i ddefnyddio'r Gymraeg ei wneud.

Defnyddiwch y bathodyn yn gyson: Sicrhewch fod staff newydd yn gwybod am Iaith Gwaith a sut i gael bathodyn.

Celebrate

If you would like to discuss an idea or contribution to the campaign, please contact us in advance at cyfathrebu@cyg-wlc.cymru or fill in the online form: 'Defnyddia dy Gymraeg' form

How can you promote Iaith Gwaith?

Encourage staff to wear the badge: Make sure badges are available to every member of staff who speaks Welsh.

Display Iaith Gwaith clearly: Use posters, signs, lanyards or digital materials wherever members of the public interact with you.

Use the digital resources: Add the Iaith Gwaith logo to e-mail signatures, staff profiles and virtual meeting backgrounds.

Share a team photo: Take a photo of staff wearing their badges and explain how people can use Welsh with you.

Share experiences: Create a quote, blog or short video from a member of staff or customer explaining the difference a clear welcome to use Welsh can make.

Use the badge consistently: Ensure that new members of staff know about Iaith Gwaith and how to get their badge.

Defnyddia dy Gymraeg

Cymraeg

Negeseuon

Negeseuon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg

Mae cyfleoedd bob dydd i ddefnyddio dy Gymraeg. Defnyddia hi yn y gwaith, yn y siop, ar-lein neu wrth gysylltu â ni. #DefnyddiaDyGymraeg

---

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb. Defnyddia dy Gymraeg gyda ni dros y ffôn, drwy e-bost, ar y cyfryngau cymdeithasol neu wyneb yn wyneb. #DefnyddiaDyGymraeg

---

Dysgu Cymraeg? Beth am ddefnyddio ychydig o Gymraeg gyda ni heddiw? Mae 'Bore da' yn mynd yn bell! #DefnyddiaDyGymraeg

---

Oeddet ti'n gwybod y gelli di *[nodwch eich gwasanaeth Cymraeg yma]* yn Gymraeg gyda ni? Mae croeso i ti ddefnyddio dy Gymraeg. #DefnyddiaDyGymraeg

---

Dechreua'r sgwrs yn Gymraeg. Mae ein staff yn barod i dy helpu. #DefnyddiaDyGymraeg

---

Os wyt ti'n cysylltu â ni yn Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, byddwn yn ateb yn Gymraeg. #DefnyddiaDyGymraeg

---

Mae defnyddio'r Gymraeg bob dydd yn gwneud gwahaniaeth. Defnyddia dy Gymraeg gyda ni. #DefnyddiaDyGymraeg

---

Wedi gweld y bathodyn oren? Mae'n dangos bod yr aelod hwn o staff yn gallu siarad Cymraeg. #IaithGwaith #DefnyddiaDyGymraeg

---

Mae ein staff yn falch o wisgo bathodynnau Iaith Gwaith. Dechreua sgwrs yn Gymraeg gyda ni. #IaithGwaith #DefnyddiaDyGymraeg

---

Mae bathodyn Iaith Gwaith yn helpu i wneud ein gwasanaethau Cymraeg yn fwy gweladwy. #IaithGwaith #DefnyddiaDyGymraeg

---

Edrycha am y bathodyn oren pan fyddi di'n ymweld â ni. Mae'n ffordd syml o wybod gyda phwy y gelli di siarad Cymraeg. #IaithGwaith #DefnyddiaDyGymraeg

---

Mae croeso i ti ddefnyddio'r Gymraeg gyda ni, faint bynnag o Gymraeg sydd gen ti. #DefnyddiaDyGymraeg

Defnyddia dy Gymraeg

Cymraeg

Messages



Social media messages

There are opportunities every day to use your Welsh. Use it at work, in the shop, online or when contacting us. #DefnyddiaDyGymraeg

---

Welsh belongs to us all. Use your Welsh with us on the phone, by e-mail, on social media or face to face. #DefnyddiaDyGymraeg

---

Dysgu Cymraeg? Learning Welsh? Why not use a little Welsh with us today? #DysguCymraeg #DefnyddiaDyGymraeg

---

Did you know that you can *[insert your Welsh services here]* in Welsh with us? You are welcome to use your Welsh. #DefnyddiaDyGymraeg

---

Start the conversation in Welsh. Our staff are ready to help you. #DefnyddiaDyGymraeg

---

If you contact us in Welsh on social media, we will reply in Welsh. #DefnyddiaDyGymraeg

---

Using Welsh every day makes a difference. Use your Welsh with us. #DefnyddiaDyGymraeg

---

Seen the orange badge? It shows that the member of staff can speak Welsh. #IaithGwaith #DefnyddiaDyGymraeg

---

Our staff are proud to wear their Iaith Gwaith badges. Start a conversation in Welsh with us. #IaithGwaith #DefnyddiaDyGymraeg

---

The Iaith Gwaith badge helps make our Welsh language services more visible. #IaithGwaith #DefnyddiaDyGymraeg

---

Look out for the orange badge when you visit us. It is a simple way to know who you can speak Welsh with. #IaithGwaith #DefnyddiaDyGymraeg

---

You are welcome to use Welsh with us, however much Welsh you have. #DefnyddiaDyGymraeg

Defnyddia dy Gymraeg

Cymraeg

Delweddau

Enghreifftiau llynedd

Images

Last year's examples











Delweddau

Mae gwaith celf a logos ar gael i'w lawrlwytho **yma**.

Images

New artwork and logos are available to download **here**.

Ar y cyfryngau cymdeithasol

On social media







Proffeil


Mae gwaith celf a logos ar gael i'w lawrlwytho **yma**.

Profile

New artwork and logos are available to download **here**.

Ar y cyfryngau cymdeithasol

On social media



Defnyddia dy Gymraeg

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth

I gysylltu â ni ymlaen llaw, i gael y newyddion diweddaraf neu i rannu eich cyfraniadau yn ystod yr ymgyrch, dilynwch ni ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Byddwn yn rhannu cynnwys drwy gydol yr ymgyrch gan ddefnyddio **#DefnyddiaDyGymraeg**. Gallwch hefyd ddefnyddio **#IaithGwaith** wrth rannu cynnwys am y bathodyn oren.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am yr ymgyrch, cysylltwch â cyfathrebu@cyg-wlc.cymru.

Thank you for your support

To contact us in advance, receive the latest news or share your contributions during the campaign, follow us on our social media channels.

We will be sharing content throughout the campaign using **#DefnyddiaDyGymraeg**. You can also use **#IaithGwaith** when sharing content about the orange badge.

For more information about the campaign, please contact cyfathrebu@cyg-wlc.cymru.

diolch yn fawr

Cymraeg